Senedd Cymru

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24

Chwefror 2023

1. Cefndir

Cyflwyniad

1. Ar 13 Rhagfyr 2022, cyhoeddodd Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, gynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24. I gyd-fynd â'r cynigion roedd dogfen naratif, Llinellau Gwariant yn y Gyllideb, a thablau yn cefnogi cynlluniau gwariant.[1]

2. Cyn ei gyhoeddi, ysgrifennodd y Gweinidog at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid i ofyn iddo (ac felly holl bwyllgorau perthnasol y Senedd) gyhoeddi ei adroddiad ar y gyllideb ddrafft ar 6 Chwefror 2023, neu cyn hynny, er mwyn galluogi cynnal y ddadl ar y gyllideb ddrafft ar 7 Chwefror 2023.[2] Ers hynny mae Llywodraeth Cymru wedi trefnu'r ddadl ar gyfer y dyddiad hwn.[3]

Ein cylch gwaith a'n dull craffu

3. Cylch gwaith y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yw cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 21 a 26C. Gall y Pwyllgor hefyd ystyried unrhyw fater sy'n ymwneud â deddfwriaeth, datganoli, y cyfansoddiad, cyfiawnder, a materion allanol sydd o fewn cymhwysedd y Senedd neu Weinidogion Cymru, neu sy'n gysylltiedig â'r cymhwysedd hwnnw, gan gynnwys ansawdd deddfwriaeth.

4. Ym mis Gorffennaf 2022, siaradodd Cadeirydd y Pwyllgor yn nadl y Pwyllgor Cyllid ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24. Eglurodd, yn dilyn profiad y Pwyllgor o graffu ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2022-23, yn ystod cylch craffu ar gyllideb 2023-24 y byddai'n ceisio archwilio lefel gwariant arfaethedig Llywodraeth Cymru ar gyfiawnder, cynnydd ei rhaglen Sicrhau Cyfiawnder i Gymru,[4] a'i chynnydd o ran dadgyfuno gwariant ar gyfiawnder o fewn y tablau sy'n cefnogi cynigion y gyllideb ddrafft.[5]

5. Felly, cytunwyd i gymryd tystiolaeth gan Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad (y Cwnsler Cyffredinol), ar gynigion yn y gyllideb ddrafft sy'n ymwneud â chyfiawnder, yn ogystal â hygyrchedd cyfraith Cymru. Ar 23 Tachwedd 2022,

---

[1] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Cyllideb Ddrafft 2023-24 – Cyllideb Mewn Cyfnod Anodd, 13 Rhagfyr 2022
[2] Llywodraeth Cymru, Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 24 Hydref 2022
[3] Senedd Cymru, Datganiad a Chyhoeddiad Busnes, 17 Ionawr 2023
[4] Llywodraeth Cymru, Sicrhau Cyfiawnder i Gymru
[5] Cyfarfod Llawn, 13 Gorffennaf 2022, Cofnod y Trafodion [350-353]

gwnaethom ysgrifennu at y Cwnsler Cyffredinol i ofyn am ragor o fanylion am yr agweddau hyn ar y gyllideb ddrafft.[6]

6. Mewn ymateb, cyflwynodd y Cwnsler Cyffredinol bapur inni yn nodi'r manylion hynny.[7] Mae atodiad y papur yn rhoi dadansoddiad o gynigion y gyllideb ddrafft ar gyfer 2023-24 fesul Prif Grŵp Gwariant, Maes Rhaglen Wariant a Llinell Wariant yn y Gyllideb y bydd camau gweithredu sy'n gysylltiedig â chyfiawnder yn cael eu hariannu ohonynt. Mae'r atodiad hefyd yn rhoi disgrifiad naratif o'r gweithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder a ddarperir gan bob Llinell Wariant yn y Gyllideb, ynghyd â chymhariaeth o'r dyraniad ym mlwyddyn ariannol 2023-24 â'r flwyddyn ariannol flaenorol.

7. Cawsom dystiolaeth lafar gan y Cwnsler Cyffredinol ar 16 Ionawr 2023.[8]

[6] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Tachwedd 2022
[7] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad LJC(6)-02-23 – Papur 2 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 21 Rhagfyr 2022
[8] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion

2. Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24

Y cyd-destun economaidd

8. Yn y Cyfarfod Llawn ar 13 Rhagfyr 2022, disgrifiodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24 fel "un o'r anoddaf" y mae Llywodraeth Cymru erioed wedi'i gwneud, "gan adlewyrchu'r storm berffaith o bwysau economaidd a chyllidebol a wynebir yng Nghymru".[9]

9. Mae papur y Cwnsler Cyffredinol i'r Pwyllgor yn nodi'r anawsterau hyn:

> *"Yn sail i Gyllideb Ddrafft 2023-24 mae dewisiadau anodd, sy'n cynnwys llawer o doriadau cyllid. Mae Gweinidogion wedi gwneud dewisiadau anodd ac mae'n rhaid iddynt drosglwyddo toriadau mewn cyllid mewn meysydd lle na fyddent wedi dymuno gwneud hynny fel arfer.*
>
> *Er mwyn galluogi Llywodraeth Cymru i warchod meysydd allweddol, cynhaliwyd ymarfer ailflaenoriaethu i ryddhau cyllid o gynlluniau presennol ac ailddargedu'r adnoddau prin at y meysydd lle ceir yr angen mwyaf. Y bwriad yw sicrhau bod pob punt a fuddsoddir yn cael yr effaith gadarnhaol fwyaf. Yn anffodus, cydnabyddir y bydd hyn yn cael effaith negyddol ar y meysydd hynny lle ailflaenoriaethwyd cyllid.*
>
> *Drwy ddefnyddio cyllid a ryddhawyd yn sgil yr ymarfer ailflaenoriaethu, ynghyd â rhai newidiadau cadarnhaol cyfyngedig i'n setliad cyffredinol o ganlyniad i Ddatganiad yr Hydref, mae Llywodraeth Cymru wedi targedu dyraniadau ychwanegol i warchod gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen a chyflawni ymrwymiadau ein Rhaglen Lywodraethu, gan helpu'r rhai y mae'r argyfwng costau byw yn effeithio arnynt a chefnogi ein heconomi drwy gyfnodau o ddirwasgiad."*[10]

[9] Y Cyfarfod Llawn, 13 Rhagfyr 2022, Cofnod y Trafodion [156]
[10] Papur gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 21 Rhagfyr 2022, paragraffau 2.2–2.4

10. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym, er bod Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymarfer ailflaenoriaethu gwariant, roedd yr elfennau cyfiawnder yn y gyllideb ddrafft yn y bôn wedi'u cadw. Aeth ymlaen i egluro:

> *"I don't see any major impact in terms of us being able to continue what we are doing. I would love it if there was more money to be able to look at additional things we could do or how we could do things better, and it may be that there are some things that we end up doing more slowly, for example, or we can't do as much of as we wanted to, but, essentially, we've retained the core elements of the justice budget."*[11]

11. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol hefyd nad oedd Llywodraeth Cymru wedi gallu ystyried effaith chwyddiant cynyddol ar wariant yn y dyfodol:

> *"... what we haven't been able to do is, of course, to take into account what the impact of, for example, inflation might be, the fact of the reduction in the value of the budgets that we actually have. So, that doesn't mean that we're not going to deliver, but, undoubtedly, it may well impact in terms of how quickly we deliver or the extent to which we deliver, and that is a little bit that's unknown until you are into it."*[12]

12. Pan ofynnwyd iddo nodi'r penderfyniad mwyaf anodd yr oedd yn rhaid iddo ei wneud o ran y gyllideb ddrafft, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol:

> *"I don't think the hardest decision we've had to make has yet potentially materialised. I think the decisions may well come depending upon what the future pressures might be. ... At the moment, I don't think there are major hard decisions that I've had to take, or that other Ministers have had to take, but that will be for them to consider in due course."*[13]

13. Cyfeiriodd y Cwnsler Cyffredinol at y gronfa gynghori sengl fel enghraifft lle byddai angen i Lywodraeth Cymru fonitro i ba raddau y byddai'r 'broblem ddyled' yn gwaethygu, a'r effaith gyfatebol ar y defnydd o'r gronfa, a dywedodd fod y straen o ran gallu cyflawni cymaint ag y mae'n ei ddymuno yn mynd i fod yn anodd iawn yn y flwyddyn i ddod.[14]

[11] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [7]
[12] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [18]
[13] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [28]
[14] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [21]

Ein barn ni

14. Nodwn effaith y pwysau economaidd ehangach ar y penderfyniadau a wnaed gan Weinidogion Cymru wrth osod cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24, fel y'i disgrifiwyd gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol.

15. Nodwn hefyd gyda phryder sylwadau'r Cwnsler Cyffredinol ynghylch effaith bosibl chwyddiant yn y dyfodol ar y cyflymder y gall Llywodraeth Cymru gyflawni ei rhaglenni, ac i ba raddau y gall wneud hynny.

Y rhaglen waith Sicrhau Cyfiawnder i Gymru

16. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei rhaglen waith Sicrhau Cyfiawnder i Gymru ym mis Mai 2022,[15] mewn ymateb i argymhellion y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru (Comisiwn Thomas).[16] Mewn ymateb i'n gwaith craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23, ymrwymodd y Cwnsler Cyffredinol i gyflwyno adroddiad blynyddol yn nodi cynnydd Llywodraeth Cymru yn erbyn amcanion y rhaglen.[17]

17. Mae papur y Cwnsler Cyffredinol yn nodi bod y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Trawsnewid Cyfiawnder yn dyrannu'r gyllideb ar gyfer gweithgarwch Llywodraeth Cymru "sy'n cefnogi'r agenda trawsnewid cyfiawnder yng Nghymru":

> *"Mae hyn, yn bennaf, yn cynnwys gweithredu argymhellion Comisiwn Thomas ac ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i fynd ar drywydd yr achos dros ddatganoli plismona a chyfiawnder, ynghyd â chydgysylltu arweinyddiaeth ym maes gweithgarwch cyfiawnder ym mhob rhan o'r Llywodraeth drwy gefnogi Is-Bwyllgor y Cabinet ar Gyfiawnder."*[18]

18. Roedd y Cwnsler Cyffredinol yn cydnabod bod gostyngiad bach[19] yn y dyraniad dangosol ar gyfer y Llinell Wariant yn y Gyllideb, ond dywedodd nad oedd yn arwydd o ostyngiad yn y flaenoriaeth sydd ynghlwm wrth y gweithgareddau y byddai'n eu cefnogi.[20]

---

[15] Llywodraeth Cymru, Sicrhau Cyfiawnder i Gymru, Mai 2022
[16] Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, Cyfiawnder yng Nghymru i bobl Cymru, Hydref 2019
[17] Llywodraeth Cymru Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 28 Chwefror 2022
[18] LJC(6)-02-23 – Papur 2, paragraff 2.7
[19] Y dyraniad ar gyfer 2022-23: £490,000; Y dyraniad dangosol ar gyfer 2023-24: £480,000.
[20] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [32]

19. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol hefyd fod datganoli cyfiawnder yn brosiect parhaus a hirdymor.[21] Aeth ymlaen i egluro:

> *"Some new things that we want to see happen in terms of the devolution of justice aren't yet part of us, but, clearly, the financial aspects of them would need to be accommodated, but would be accommodated presumably as something that's devolved—that there would be a consequential to enable that to happen. So, we're in this stage where the issue of devolution of justice is an ongoing thing. Week in, week out it is consistently on my desk, but until a decision is taken that certain things are going to transfer, it is still very much the case of engaging, developing contacts with the Ministry of Justice, developing the projects that we're involved in with the MOJ, which you're aware of, some of which are accommodated within the budget already, I think."*[22]

Ein barn ni

20. Nodwn y gostyngiad bach i'r dyraniad yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Trawsnewid Cyfiawnder; fodd bynnag, rydym yn croesawu datganiad y Cwnsler Cyffredinol nad yw'r gostyngiad hwn yn arwydd o ostyngiad yn y flaenoriaeth a roddir i'r gweithgareddau y byddai'n eu cefnogi.

Tribiwnlysoedd Cymru

21. Mae papur y Cwnsler Cyffredinol yn darparu bod y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Tribiwnlysoedd, y mae ei ddyraniad dangosol ar gyfer 2022-23 wedi gostwng,[23] yn cefnogi Tribiwnlysoedd Cymru[24] drwy Uned Tribiwnlysoedd Cymru.[25]

22. Mewn tystiolaeth lafar, cadarnhaodd y Cwnsler Cyffredinol y lleihad bach iawn yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Tribiwnlysoedd ac eglurodd:

> *"The tribunals came under budget during the last financial year, partly because of more online hearings rather than face-to-face hearings. That may change. There may, of course, be more cases. That part of the justice system*

[21] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [32]
[22] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [34]
[23] Y dyraniad ar gyfer 2022-23: £4.193 miliwn; Y dyraniad dangosol ar gyfer 2023-24: £4.11 miliwn
[24] Mae rhestr o dribiwnlysoedd Cymru ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.
[25] LJC(6)-02-23 – Papur 2, tudalen 5

> *has to be able to deliver. It's one of those things where you have to monitor as you go along to ensure, but the fact of the matter is that it has to be delivered. We do have to have those cases. They have to operate and they have to operate within the correct judicial environment, and independently of Government, et cetera. We think the budget will manage that, but it's one of those things where we have to be ongoing in monitoring it. That is clearly a priority area as well."*[26]

23. Darparodd y Cwnsler Cyffredinol hefyd amlinelliad o effeithiau posibl diwygiadau arfaethedig Llywodraeth Cymru i Dribiwnlysoedd Cymru[27] ar ddyraniadau yn y dyfodol i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Trawsnewid Cyfiawnder, a fydd yn darparu adnoddau ar gyfer y diwygiadau hyn:

> *"Tribunal reform coming up is something that's going to be very, very important. Of course, there hasn't been an announcement formally of a tribunals Bill, but everyone is aware of the Law Commission report on tribunals—that will need to happen. There will need to be a single-tier tribunal and an apellate structure on that. That may actually result in a more efficient way of dealing with tribunals, instead of having several operating tribunals working separately. … That having been said, there may well be increased demand as a result of that—the need to ensure that we have greater provision in the Welsh language and so on. So, those are things that, I think, we do have to look ahead to in the future."*[28]

Ein barn ni

24. Nodwn y gostyngiad bach yn y dyraniad a roddwyd i gefnogi tribiwnlysoedd Cymru yn y gyllideb ddrafft. Nodwn hefyd ddatganiad y Cwnsler Cyffredinol y byddai Llywodraeth Cymru yn monitro effaith unrhyw gynnydd mewn achosion, neu gynnydd yn nifer y gwrandawiadau wyneb yn wyneb, ar yr adnoddau sydd eu hangen ar dribiwnlysoedd Cymru.

Argymhelliad 1. Dylai'r Cwnsler Cyffredinol ddarparu diweddariadau amserol inni ynghylch unrhyw gynnydd yn y galw ar i dribiwnlysoedd Cymru wrando ar achosion, ac o ganlyniad i

[26] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [22]
[27] Ym mis Rhagfyr 2021, roedd Comisiwn y Gyfraith yn argymell diwygio'r tribiwnlysoedd datganoledig. Yn y rhaglen Sicrhau Cyfiawnder i Gymru (adran 9 o'r ddogfen), roedd Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo'n gryf yr egwyddor sylfaenol sy'n deillio o'r argymhellion.
[28] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [33]

hynny, unrhyw gynnydd yn ystod y flwyddyn i'r dyraniad i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Tribiwnlysoedd.

25. Nodwn sylwadau'r Cwnsler Cyffredinol ynghylch pwysigrwydd diwygio arfaethedig i dribiwnlysoedd Cymru, ac er y gallai diwygiad o'r fath arwain at strwythur mwy effeithlon, gallai arwain at gynnydd yn y galw. At hynny, gan y bydd diwygiad o'r fath yn cael ei ariannu gan y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Trawsnewid Cyfiawnder, hoffem gael rhagor o wybodaeth am ehangder y gwaith hwn.

Argymhelliad 2. Dylai'r Cwnsler Cyffredinol ddarparu manylion inni am yr adnoddau y mae'n rhagweld y bydd eu hangen i ddatblygu cynigion i ddiwygio tribiwnlysoedd Cymru.

Atebolrwydd canlyniadau gwariant mewn perthynas â chyfiawnder

26. Amlinellodd y Cwnsler Cyffredinol ei rôl drosfwaol o fewn proses gwneud penderfyniadau Llywodraeth Cymru ar wariant sy'n ymwneud â chyfiawnder:

> *"... in terms of the budget with regard to justice, of course, I don't have, in that sense, a specific budget per se? Because my function as Counsel General and Minister for the Constitution, of course, overlaps into, really, all the other portfolio areas that are impacted by justice, and in particular, the Minister for Social Justice ... So, whereas I have a sort of engagement and, of course, work very closely with the Minister for Social Justice, the budget I have is, or the areas that I work in predominantly relate to, I think, what are staffing costs and some research and policy development areas. So, there'll be areas where it's probably difficult for me to talk about, because they're questions that probably should be going to specific Ministers ..."*[29]

27. Fel rhan o'n gwaith craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23, gwnaethom argymell y dylai Llywodraeth Cymru weithio tuag at ddadgyfuno gwariant ar gyfiawnder mewn cyllidebau yn y dyfodol. Mewn ymateb, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i archwilio'r ffyrdd y gallai wella lefel y wybodaeth y mae'n ei darparu am wariant ar gyfiawnder.[30]

28. Mae papur y Cwnsler Cyffredinol yn nodi bod gweithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder yn "trawstorri portffolios a chaiff cyllid ei ddyrannu i'r gweithgarwch hwn o sawl Llinell Wariant yn y Gyllideb". Mae'n nodi ymhellach:

[29] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [5]
[30] Llywodraeth Cymru Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 28 Chwefror 2022, ymateb i argymhelliad 4

> *"Mewn llawer o achosion, bydd y rhan fwyaf o'r gwariant ar gostau staff na chaiff eu hamser ei rannu'n union rhwng gweithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder a gweithgarwch arall, neu ragolygon gwariant na ellir eu dadgyfuno yn y modd hwn. Felly, yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2023-24, nid yw lefel y manylder ynghylch dyraniadau'r gyllideb ar gyfer gweithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder yn mynd ymhellach na lefel Llinellau Gwariant yn y Gyllideb. Mae'r dull hwn yn gyson â'r Protocol[31] ac felly mae strwythur a chyflwyniad y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2022-23 yn gyson â chyllidebau blynyddoedd blaenorol."[32]*

29. Yn y papur, mae'r Cwnsler Cyffredinol hefyd yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru, fel rhan o'i hadroddiad blynyddol ar y rhaglen Sicrhau Cyfiawnder i Gymru, yn parhau i archwilio ffyrdd y gall wella lefel y wybodaeth fanwl y gall ei darparu ar wariant cyfiawnder.[33] Dywedodd swyddog a oedd gyda'r Cwnsler Cyffredinol wrthym mai'r gobaith yw y bydd adroddiadau blynyddol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am wariant ar gyfiawnder yn erbyn yr hyn a ragwelwyd, a gwerthusiadau o ganlyniadau'r gwariant hwnnw.[34]

30. Pan holwyd y Cwnsler Cyffredinol ynghylch effaith y dyraniad yn y gyllideb ar nifer Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu, dywedodd nad oes unrhyw effaith yn yr ystyr y bydd y niferoedd sydd gennym yn parhau i gael eu cefnogi, ac mae'n ddigon posibl bod yr effaith ar gymunedau i ddod. Fodd bynnag, aeth y Cwnsler Cyffredinol ymlaen i ddweud:

> *"... these are budgets in other people's portfolios. These are not my portfolios. I engage in the broader sense on these. I know because I chair the justice Cabinet sub-committee that we do take a look at the overall picture in terms of the developments, what is happening in social justice, what are all the projects that are there. In that committee, we don't go into the budgets; those are left to the individual portfolios. And of course, you'll notice that some of those budgets go into health, they go into social services and local government issues, they go into education as well. So, in many ways, the specific budgets there are ones where I can talk generally about them, but I*

[31] Mae Protocol Proses y Gyllideb rhwng y Senedd a Llywodraeth Cymru, a gytunwyd gan y Senedd ar 21 Mehefin 2017, yn nodi'r ddealltwriaeth rhwng y Pwyllgor Cyllid a Llywodraeth Cymru ar faterion sy'n ymwneud â'r gyllideb.
[32] LJC(6)-02-23 – Papur 2, paragraff 2.5.
[33] LJC(6)-02-23 – Papur 2, paragraff 2.9
[34] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [62]

think any detail on them you probably need to put to the specific Ministers in terms of their portfolios."[35]

31. Pan ofynnwyd iddo a oedd yn fodlon ar dryloywder y strwythur a osododd, lle mae gan y Cwnsler Cyffredinol rôl i'w chwarae yn y gwaith o gydgysylltu gweithgareddau Llywodraeth Cymru ar gyfiawnder ond bod gan Weinidogion eraill gyfrifoldebau dros ddyrannu gwariant ar gyfer y gweithgareddau hynny, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol:

"... we do have that level of transparency, and the transparency is also growing as the work we do continues to grow. So, I'm satisfied with that. I'm also satisfied, I think, that we probably have more transparency than we've ever had within the Senedd on these areas.

I think what it reflects also, though, is where we are with the devolution of justice more broadly. I think, in future years—and it's probably for a future Senedd—we are moving towards the stage where you actually have a department of justice, a Minister and so on. And I think, with the tribunal reform, devolution of youth justice, probation and so on, that gets to a certain momentum where that actually becomes a necessary part of the structure.

I also think, probably, it was not feasible within a Senedd of 60 persons. So, I think, to do it, you actually need a larger Senedd ... because you need that broader number of persons in terms of the capacity to scrutinise."[36]

32. Pan ofynnwyd ymhellach iddo a yw'r strwythur presennol yn caniatáu ar gyfer gwaith craffu digonol ar ganlyniadau dyraniadau gwariant ar weithgareddau sy'n ymwneud â chyfiawnder, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol:

"When the Thomas commission met, one of the recommendations was that there should be a specific justice function within the Welsh Government. We're not quite there yet; we have a sort of hybrid arrangement. But it's the reason why I myself, and the Minister for Social Justice, have chosen to work very, very closely together ... I don't actually believe that justice can be properly delivered without embracing, also, the concept of social justice."[37]

[35] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [26]
[36] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [47-49, 51]
[37] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [55]

33. Eglurodd y Cwnsler Cyffredinol fod diffyg data wedi'u dadgyfuno ar y system gyfiawnder yng Nghymru yn un o'r pethau pwysicaf y mae'n rhaid mynd i'r afael ag ef er mwyn gallu gwerthuso canlyniadau, a heb y data hynny, mae'n anodd iawn datblygu polisi cyfiawnder.[38] Aeth ymlaen i ddweud:

> *"This is a point that we've made—myself and the Minister for Social Justice—in all the meetings that we've had with UK Government Ministry of Justice officials, Lord Chief Justice, and so on.*
>
> *It was a point that was made very much by Cardiff University in their recent publication on criminal justice. I was absolutely shocked when I saw the data in terms of Wales having the highest number of citizens in Europe that are actually in prison, pro rata, and also that the make-up of those and those on probation is almost, I think, two thirds or 70 per cent from non-white backgrounds. That is data that we should have, that we should know about, that we should be able to take into account in evaluating. It shouldn't be dependent upon freedom of information requests and so on. Until we have that data, it will make the development of justice policy extremely difficult and uncertain. That's why we keep pressing that point. I think we have agreement, and I know there are complications as to how you actually get it when you're starting from scratch, but it is something that we do have to have, and it's fundamentally important to the future of justice within Wales."*[39]

Ein barn ni

34. Nodwn eglurhad y Cwnsler Cyffredinol bod trefniant hybrid yn bodoli o fewn Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd o ran ei swyddogaethau cyfiawnder, ac y bydd unrhyw ddatganoli deddfwriaethol yn y dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol cael adran gyfiawnder fel yr argymhellir gan Gomisiwn Thomas.

35. Arhoswn yn eiddgar i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei hadroddiad blynyddol gyntaf ar ei rhaglen Sicrhau Cyfiawnder i Gymru. Yn benodol, edrychwn ymlaen at weld unrhyw fanylion a allai gael eu cynnwys am wariant Llywodraeth Cymru ar gyfiawnder yn erbyn yr hyn a ragwelwyd, a gwerthusiadau o ganlyniadau'r gwariant hwnnw. Gan y bydd cynnwys yr adroddiad blynyddol yn debygol o drafod ein cylch gwaith ni a chylch gwaith y Pwyllgor

[38] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [57]
[39] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [61-62]

Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, byddwn yn ceisio cyfleoedd i graffu ar y cyd ar yr adroddiad blynyddol.

Capasiti Llywodraeth Cymru i ddeddfu

36. Pan ofynnwyd a oedd gan Lywodraeth Cymru ddigon o adnoddau i ddeddfu yng nghyd-destun y cynnydd yn nifer Biliau Senedd y DU sy'n ddarostyngedig i'r broses cydsyniad deddfwriaethol,[40] dywedodd y Cwnsler Cyffredinol:

> *"... we have the budget that is set in terms of the functions that we have. Where the challenges come might be, for example, on the area of retained EU law. We're not quite sure precisely what that is going to mean and what the implications of that are going to be. The other thing, of course, is that much of it is actually staff and lawyer time, et cetera, looking at UK Government Bills as one element, and if those change or those increase, or new Bills are introduced—we now have, for example, the strikes (minimum service standards) Bill coming through, which raises all sorts of issues in respect of Welsh Government responsibilities. So, those are all things that are new that come in that then have to be accommodated, and they will be accommodated, as we will do with the retained EU law [Bill], it's just it's difficult to be precise about it, because you're budgeting for what you expect to be there, and you don't have an enormous amount of leeway within that."*[41]

37. Ategodd y Cwnsler Cyffredinol ymhellach ei gred bod digon o adnoddau i gynnal rhaglenni deddfwriaethol adrannau Llywodraeth Cymru, ac y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflawni'r rhaglen ddeddfwriaethol honno.[42]

38. Pan holwyd y Cwnsler Cyffredinol yn benodol ynghylch effeithiau tebygol Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)[43] ar adnoddau Llywodraeth Cymru, dywedodd:

> *"It will certainly have a massive impact on giving it the attention that it needs. The question is what the scale of that attention is, what impact it has on other areas that need attention, the way resources are spread around. As I*

[40] Rydym wedi mynegi ein pryderon ynghylch y cynnydd hwn yn ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2021/22, Hydref 2022
[41] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [12]
[42] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [14]
[43] Bil Cyfraith yr UE (Dirymu a Diwygio) a Ddargedwir [Bil Tŷ'r Arglwyddi 89]

say, it's one of those things that we are continuing to work on, continuing work to identify those particular areas."[44]

Ein barn ni

39. Rydym yn cydnabod honiad y Cwnsler Cyffredinol fod gan Lywodraeth Cymru ddigon o adnoddau i gyflawni ei rhaglen ddeddfwriaethol. Er y gallai hynny fod yn wir, wrth ystyried y cynnydd rydym wedi'i weld ym miliau seneddol y DU sy'n ddarostyngedig i femoranda cydsyniad deddfwriaethol, nid yw'n glir inni a oes gan Lywodraeth Cymru ddigon o adnoddau i gyflawni'r holl ddeddfwriaeth y gall benderfynu ar unrhyw adeg sy'n angenrheidiol. O ganlyniad i hyn, rydym yn bryderus y gall Llywodraeth Cymru fod yn defnyddio rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU i weithredu rhai o'i hamcanion polisi gan ei bod yn gofyn am lai o'i hadnoddau ei hun, sydd â'r effaith ychwanegol bod deddfwriaeth mewn meysydd datganoledig yn destun gwaith craffu llai manwl gan y Senedd.

40. At hynny, rydym yn arbennig o bryderus ynghylch effaith Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) – sy'n debygol o fod yn arwyddocaol os deddfir y Bil fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd – ar adnoddau Llywodraeth Cymru. Rydym yn cydnabod datganiad y Cwnsler Cyffredinol bod Llywodraeth Cymru yn parhau i nodi pa feysydd y bydd angen sylw arnynt o dan ofynion y Bil. Fodd bynnag, unwaith y daw'n glir i Lywodraeth Cymru beth fydd effeithiau tebygol y Bil ar ei gallu i gyflawni ar gyfer pobl Cymru, mae'n hanfodol bod darlun cyflawn o'r effeithiau tebygol hynny yn cael ei rannu â'r Senedd.

Argymhelliad 3. Os daw Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) yn gyfraith, dylai'r Cwnsler Cyffredinol adrodd i ni ar asesiad Llywodraeth Cymru o effaith y Bil ar ei hadnoddau o fewn mis i'w basio, ac yn fisol wedi hynny.

Hygyrchedd Cyfraith Cymru

41. Yn ei bapur i'r Pwyllgor, mae'r Cwnsler Cyffredinol yn nodi bod gwaith Llywodraeth Cymru i gyflawni rhaglen hygyrchedd cyfraith Cymru[45] yn cael "eu talu gan ddefnyddio cyllid o sawl portffolio fel rhan o weithgarwch deddfwriaethol ehangach y sefydliad". Mae hefyd yn nodi bod costau dangosol y costau ychwanegol sydd eu hangen i gynyddu'r capasiti drafftio a chyfieithu, ac i staff weithio ar brosiectau anneddfwriaethol, wedi'u nodi yn y Memorandwm Esboniadol i Fil Deddfwriaeth (Cymru).[46]

[44] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [89]
[45] Llywodraeth Cymru, Dyfodol cyfraith Cymru: Rhaglen ar gyfer 2021 i 2026, Medi 2021
[46] LJC(6)-02-23 – Papur 2, paragraff 4.1

42. Mae adroddiad blynyddol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22 ar ei rhaglen hygyrchedd cyfraith Cymru yn nodi bod Canolfan Bedwyr yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru "i ddatblygu offer cyfieithu peirianyddol parth-benodol ar gyfer y gyfraith a deddfwriaeth erbyn mis Ebrill 2023."[47] Mae papur y Cwnsler Cyffredinol yn cadarnhau bod swm dangosol o £350,000 wedi'i ddyrannu yn y gyllideb ddrafft ar gyfer y gwaith hwn.[48]

Ein barn ni

43. Nodwn y cafodd y costau staffio dangosol i Lywodraeth Cymru o ganlyniad i'r Bil Deddfwriaeth (Cymru) eu nodi ym Memorandwm Esboniadol y Bil, fel y nodir gan y Cwnsler Cyffredinol. Gan fod dros tair blynedd bellach wedi mynd heibio ers i'r Bil ddod yn Ddeddf, hoffem ddeall a yw'r costau dangosol hyn i Lywodraeth Cymru wedi bod yn gywir.

Argymhelliad 4. Dylai'r Cwnsler Cyffredinol, erbyn diwedd mis Mawrth, ddarparu dadansoddiad ynghylch pa un a yw'r costau staffio ychwanegol a ragwelwyd i Lywodraeth Cymru sydd wedi'u nodi yn y Memorandwm Esboniadol i'r Bil Deddfwriaeth (Cymru) yn gywir.

44. Nodwn y swm a ddyrannwyd yn y gyllideb ddrafft i Ganolfan Bedwyr ddatblygu offer cyfieithu peirianyddol parth-benodol ar gyfer y gyfraith a deddfwriaeth. Edrychwn ymlaen at weld canlyniadau'r gwaith hwn yn adroddiad blynyddol nesaf Llywodraeth Cymru ar ei rhaglen i wella hygyrchedd cyfraith Cymru.

[47] Llywodraeth Cymru, Dyfodol cyfraith Cymru: adroddiad blynyddol 2021 i 2022, Tachwedd 2022, paragraff 36
[48] LJC(6)-02-23 – Papur 2, paragraff 4.3